


Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Llyfryn Noddi

## 2026/2027



# Y Bartneriaeth

## Meithrin perthynas gyda chalon tai Cymru

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn fwy na dim ond darparydd digwyddiadau.

Ni yw'r llais blaenllaw ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru, gan gynrychioli 30 o gymdeithasau nid er elw sy'n cynnig cartrefi i 10% o boblogaeth Cymru.

Mae gennym genhadaeth i ddatrys yr argyfwng tai. Drwy ymuno â ni, rydych yn fwy na dim ond logo ar sgrin – rydych yn rhan o'r daith honno.

## Pam fod digwyddiadau CHC yn wahanol

Cynlluniwyd ein cynadleddau i fod yn broffesiynol ond eto'n gyfeillgar. Nid ydym yn anelu iddynt fod yn ddigwyddiadau enfawr; anelwn iddynt fod y maint cywir.

Rydym yn creu amgylchedd cefnogol ac agos atoch lle gallwch feithrin ymddiriedaeth gwirioneddol a pherthnasoedd parhaus gyda'n haelodau.

# Y budd i'ch sefydliad

## Mae noddi digwyddiad CHC yn symudiad strategol ar gyfer eich marchnata i'r sector tai yng Nghymru.

Dyma pam fod ein partneriaid yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn:

- Cael mynediad i'r gwneuthurwyr penderfyniadau: Rydym yn cael y bobl gywir yn yr ystafell gywir. Byddwch yn sicrhau mynediad uniongyrchol i uwch arweinwyr,
- Llwyfan ar gyfer eich arbenigedd: Rydym yn gwerthfawrogi gwybodaeth unigryw y sector preifat. Rhannwch eich datrysiadau ymarferol a helpu ein haelodau i lywio dyfodol tai.
- Ymrwymiad amlwg: Sefyll wrth ein hochr i ddangos eich cefnogaeth ddiffuant ar gyfer hawl pob person yng Nghymru i gael cartref o ansawdd da.
- Rhwydweithio gan roi perthynas yn gyntaf: O giniawau ffurfiol i dderbyniadau brecwast hamddenol, caiff ein pecynnau eu llunio ar gyfer cysylltiadau proffesiynol ystyrlon a hirdymor.



Ydych chi'n barod i ymuno yn y sgwrs? I drafod sut y gallwn gydweithio, cysylltwch â Lottie Wallond at events@chcymru.org.uk

# Cynadleddau ar y gweill


Mae gennym bedair cynhadledd ar y gweill drwy gydol y flwyddyn nesaf (2026/27) a fydd yn denu arweinyddion a rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector tai.

**Un Gynhadledd Tai Fawr**
2 & 3 Gorffennaf 2026, Llandrindod Wells

**Cynhadledd Cyllid**
1 & 2 Hydref 2026, Llandrindod Wells

**Uwchgynhadledd Arweinyddiaeth**
24 Tachwedd 2026, Caerdydd

**Cynhadledd Llywodraethiant a Risg**
9 Mawrth 2027, Caerdydd





# Pecynnau

## Noddwr Aur

**Mae'r pecyn hwn yn cynnys:**

- Noddi prif siaradwr
- Cyfle i gael slot siarad yn ystod y gynhadledd, ymuno sesiwn panel neu darparu gweithdy
- Brandio ar y pecyn gwe, deunyddiau hyrwyddo a'r digwyddiad byw
- Cydnabyddiaeth lafar o'ch cefnogaeth
- Cydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gofod yn yr arddangosfa
- Dau docyn
- 50% i ffwrdd tocynnau ychwanegol

**£ 7,200**



# Pecynnau

## Noddwr Arian

**Mae'r pecyn hwn yn cynnys:**

- Cyfle i noddi gweithdy (Cydnabyddiaeth o nawdd gan gadeirydd y gweithdy, brandio ar y sleid gyflwyno)
- Brandio ar y pecyn gwe, deunyddiau hyrwyddo a'r digwyddiad byw
- Cydnabyddiaeth lafar o'ch cefnogaeth
- Cydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gofod yn yr arddangosfa
- Dau docyn
- 25% i ffwrdd tocynnau ychwanegol


**£ 4,600**

## Noddwr Efydd

**Mae'r pecyn hwn yn cynnys:**

- Brandio ar y pecyn gwe, deunyddiau hyrwyddo a'r digwyddiad byw
- Cydnabyddiaeth lafar o'ch cefnogaeth
- Cydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gofod yn yr arddangosfa
- Dau docyn
- 25% i ffwrdd tocynnau ychwanegol

**£ 2,600**




# Pecynnau

## Noddwr rhydweithio

**Mae'r pecyn hwn yn cynnys:**

- Cyfle i roi araith yn y derbyniad diodydd / brecwast rhwydweithio
- Brandio ar y pecyn gwe, deunyddiau hyrwyddo a'r digwyddiad byw
- Cydnabyddiaeth lafar o'ch cefnogaeth
- Cydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gofod yn yr arddangosfa
- Dau docyn
- 25% i ffwrdd tocynnau ychwanegol

**£ 4,600**

## Pecynnau pwrpasol

Mae gennym becynnau nawdd eraill ar gael hefyd, fel noddi bathodynnau. Os oes gennych rywbeth mewn golwg, rydym yn barod i wrando!

**Cysylltwch â ni a byddwn yn archwilio'r opsiynau gyda'n gilydd**

# Sylwadau am ein cynadleddau

Mae bob amser yn gyfle gwych i ddal lan gyda phobl yr ydych yn eu hadnabod a siarad gyda phobl newydd. Rydw i bob amser yn hapus i siarad gyda rhai newydd i'r sector.

*Jackie Leonard, CHIC Ltd*

Cynhadledd Cyllid 2025

Rydw i'n credu iddi fod yn gynhadledd wirioneddol dda. Mae hyn am yr hyn y mae'r holl sector yma i'w gefnogi, sef y lleoedd, y cymunedau a'r bobl. Felly bu rhai sgyrsiau gwirioneddol wych. Pethau da i gnoi cil arnyn nhw, llawer o werth mewn rhannu a'r rhwydweithio hefyd.

*Nigel Ireland, Barcud Shared Services*


Un Gynhadledd Tai Fawr 2025

Mae pobl yma yn siarad am broblemau yn y sector ond hefyd yn edrych am ddatrysiadau. Mae'r math hwnnw o drafodaeth sy'n edrych i'r dyfodol yn wirioneddol bwysig ac mae'n digwydd yma yn neilltuol yn dda, felly bu'n brofiad gwych fel bob amser ac mae'r rhwydweithio yn rhagorol.

*John Tattersall, Centrus Advisors*

Cynhadledd Cyllid 2025





# Gwybodaeth ar gyfer noddwyr

## Y contract

- Bydd y cytundeb nawdd rhwng Cartrefi Cymunedol Cymru a'ch sefydliad/cwmni chi.
- Ymrwymir i'r cytundeb yn annibynnol o a heb unrhyw amod i unrhyw gytundeb(au) masnachol yn y dyfodol rhwng Cartrefi Cymunedol Cymru a'ch sefydliad/cwmni.

## Brandio

- Caiff eich logo a disgrifiad byr o'ch sefydliad eu cynnwys yng ngwe-becyn y gynhadledd, a gaiff ei rannu gyda phob cynrychiolydd a siaradwr yn y cyfnod cyn ac yn ystod y digwyddiad.
- Byddwn angen logo ansawdd uchel ar ffurf vector (SVG neu EPS) a disgrifiad o ddim mwy na 150 gair wedi'u hysgrifennu yn y trydydd person. Byddwn yn cyfeirio at wefan swyddogol y sefydliad os na fyddwn yn derbyn yr adnoddau hyn erbyn y dyddiad a nodir.
- Caiff logos hefyd eu dangos yn arwyddion y ddigwyddiad a'r deciau sleidiau a ddefnyddir mewn sesiynau llawn.

## Yswiriant a Cymorth Cyntaf

- Dylai noddwyr sicrhau fod ganddynt ddiogeliad yswiriant digonol pan fyddant yn mynychu un o'n cynadleddau. Mae bellach yn orfodol ein bod yn cael tystiolaeth o'ch yswiriant ac asesiad risg cyn i chi gyrraedd ar y safle a dechrau gosod eich stondin.
- Bydd darpariaeth Cymorth Cyntaf ar gael drwy gydol y gynhadledd. Gofynnir i chi gysylltu ag aelod o staff CHC neu staff y safle os ydych angen cymorth.





# Gwybodaeth ar gyfer noddwyr

## Stondinau arddangos

- Mae CHC yn ymroddedig i weithio tuag at gynnal digwyddiadau mwy cynaliadwy. Gofynnir i chi ystyried hyn pan fyddwch yn dewis unrhyw nwyddau i'w dosbarthu am ddim drwy sicrhau eu bod mor eco-gyfeillgar ag sydd modd.
- Dylid cadw lefelau sŵn mor isel ag sydd modd yn ystod prif sesiynau.
- Byddwn yn darparu bwrdd a lliain bwrdd ar gyfer pob noddwr. Gofynnir i chi ddod â deunyddiau brand i'w harddangos.
- Ni fedrwn dderbyn cynlluniau cragen yn ein cynadleddau.
- Gofynnwch ymlaen llaw os gwelwch yn dda os ydych angen mynediad i drydan ar gyfer eich stondin a gwnawn ein gorau i ddarparu hyn i chi.
- Ni chaniateir rhannu stondinau.



Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

events@chcymru.org.uk

community-housing-cymru

Desg, 7-8 Park Place, Cardiff CF10 3DP

